# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 31.10.24

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:708: Presennol**: Iwan Pughe Jones (Cadeirydd) Gareth Wyn Jones, Deryck Lewis, Rhodri Wigley, William Owen, Gwen Lloyd, Bedwyr Fychan, Huw Williams Glyn Jones Elwyn Vaughan, Sandra Evans (Clerc)

**19:709: Ymddiheuriadau**: Aled Griffiths, Gwenfair Rhys-Davies, Dafydd Evans, Gareth Owen, Paul Hughes, Huw Williams.

**19:710: Materion Personol:-**

**19:711: Datganiadau o ddiddordeb**: Gwenfair Rhys-Davies – Cynllunio

Bedwyr Fychan – Yr Urdd

**19:712: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Medi 2024** Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir gan Gareth Wyn Jones ac fe'i heiliwyd gan William Owen.

**19:713: Materion yn codi o'r cofnodion.**

**19:714: Adroddiad y Clerc** Cafwyd ymateb gan Rhisiart Arwyn i'r problemau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. (Gweler Ffyrdd a Phontydd.)

**19:715: Cynllunio**: tynnu 0.15 hectar o dir ym Melinbyrhedyn o Gofrestr Tir Comin. Doedd hyn ddim yn berthnasol i CC Glantwymyn.

**19:716: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

• Yswiriant £1,297.42 (Infois 537219101) – angen siec newydd yn daladwy i Gallagher Insurance

• Cyflog y Clerc Mis Medi (Mis 6) £220.00

HMRC £461.20 PAYE (chwarter 2 - 6.7.24 – 5.10.24)

• Costau'r Clerc - £139.94 – inc a phapur

• WR Partners £117.00 Cyflogres Mehefin- Awst 24

Cytunwyd i dalu'r uchod yn unfrydol

• Yswiriant Seiber £187.04 Coalition Risk Solutions Ltd – Gohiriwyd y penderfyniad nes cysylltu ag Un Llais Cymru i drafod y gofynion.

• Awdit Cymru £305 (ar gyfer 2017-2018), £305 a £1852.25 (ar gyfer 2018-2019), £305 (ar gyfer 2019-2020), £342 (ar gyfer 2020-2021) Cytunwyd y

dylid gofyn am gynllun talu. Cynigiwyd hyn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Gareth Wyn Jones.

**19:717: Derbyn Model Reoliadau Ariannol newydd 2024** Gohiriwyd hyn tan y cyfarfod nesaf i bawb gael amser priodol i ystyried y dogfennau

**19:718: Adborth ar awdit 2021-2022 a 2022-2023**

Gweithredir ar yr adborth a dderbyniwyd. Yn y dyfodol bydd gweithgor yn cynnwys y Cadeirydd, yr is-gadeirydd a'r cadeirydd blaenorol ar gael i gynorthwyo ac edrych dros y gwaith papur cyn ei gyflwyno.

**19:719: Cyllideb 2024-25** Trafodir y gyllideb yn y cyfarfod nesaf yr amcangyfrif ar gyfer gwariant.

**19:720: Gohebiaeth**

**19:720:1: Urdd, Maldwyn - Cais am arian.** Ni ystyriwyd bod hwn yn addas ar gyfer y Cyngor gan fod y Cyngor eisoes wedi gwneud y cyfraniadau elusennol.

**19:720:2: Galileo – Empower** – Cynhelir ymgynghoriad a nifer o gyfarfodydd gan gynnwys neuadd Pentref Cwmlline 14.11.24 a Dinas Mawddwy 15.11.

**19:721: Adroddiadau'r Cynghorwyr – Rhodri Wigley Llywodraethwr Ysgol Glantwymyn.** Trafodwyd polisïau mewn cyfarfod yn ddiweddar gan gynnwys y gyllideb. Mae'r ysgol erbyn hyn yn galonogol gan fod y sefyllfa ariannol yn well.

**Elwyn Vaughan –Ysgol Hyddgen -** Mae'r cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo 31.10.24

**Ffordd at y filfeddygfa** – Cafwyd cydnabyddiaeth bod y ddau barti, Network Rail a Chyngor Sir Powys yn barod i symud ymlaen gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r llywodraeth leol. Cynhelir cyfarfod y mis nesaf i drafod.

**Ffordd Talerddig –** Mae'r gwaith ffordd wedi cael ei ohirio tan y flwyddyn newydd. Ni chafwyd rhybudd am hyn ymlaen llaw.

Cyllideb y Cyngor – bydd yn cael ei drafod yn fuan. Cafwyd toriadau mawr yn y gyllideb 30.11.24. Mae Powys eisiau arbed 10 miliwn y flwyddyn nesaf.

Yr ambiwlans awyr – bydd y mater yn mynd o flaen yr uchel lys yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. Bydd y byrddau iechyd yn gorfod ateb i'r llys.

**19:722: Ffyrdd a Phontydd**

- **Problemau Cemaes a Glantwymyn.** Cafwyd ymateb gan Rhisiart Arwyn i'r problemau a godwyd fel a ganlyn:-

- 1. **Dŵr yn cronni ger yr eglwys yng Nghemaes** – Mae pibellau NMWTRA yn cyfarfod â rhai Powys gyferbyn â'r Penrhos. Mae'r safle hefyd yn fflat a does dim modd gwaredu'r dŵr mewn ffordd wahanol. Mae hi'n waeth mewn glaw trwm, yn dod allan o'r gyrben/peipen wrth ymyl yr eglwys. Mae arbenigwyr MetroRod wedi gwneud arolwg o'r system ar gychwyn y flwyddyn. Daeth gwaith ail wynebu'r pentref cyn cael amser i ddatrys y broblem. Mae'r manylion wedi cael eu rhoi i'r adran draenio a Gareth, Cyngor Sir Powys Llanbrynmair.

**2. Pont garreg Cemaes angen ei thrwsio** gan fod 2 gar wedi ei malu mewn damweiniau goryrru. Mae Peiriannydd Cynnal a Chadw Strwythurau, wedi rhoi'r gwaith i Bowys ers blwyddyn, ac mae wedi ail godi'r Order ym mis Hydref i Gyngor Sir Powys wneud y gwaith mor fuan a gallant.

**3. Adolygu arwyddion cyfyngder cyflymder yn yr ardal -** symud yr arwyddion/ rhoi arwyddion newydd a lleihau'r cyfyngder e.e. Glantwymyn -tybir bod 40 mya yn rhy uchel yn enwedig o ystyried nifer y cyfleusterau. Byddai 30 neu 20 mya.

**e.e. Cemaes - sawl damwain - ceir yn goryrru a mynd yn sownd ar ben y bont garreg x2, dim pafin i blant gyrraedd y parc chwarae yn ddiogel.** Mae'r Cynghorydd Bedwyr Fychan wedi anfon llythyr am hwn yn dilyn diffyg ymateb i'r cyfarfod a gynhaliwyd yno yn yr haf. Mae Andrew wedi dod a hwn at sylw Llywodraeth Cymru yn dilyn y cyfarfod safle yng Nghemaes.

- Nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud ar sawl achlysur gan gynnwys llythyr gan Bedwyr Fychan yn ddiweddar.

Bydd y Cyngor yn cysylltu â Ken Skates i dynnu sylw at y materion hyn a gofyn am arwyddion cyflymder gyda goleuadau sy'n fflachio.

- Parcio Cemaes - Cafwyd cais gan Richard Arwyn i drafod y posibilrwydd o gael maes parcio y tu ôl i'r Penrhos. Nodwyd y byddai Cyngor Cymuned Glantwymyn yn gyfrifol am wneud y gwaith a chynnal y maes parcio. Cytunwyd y byddai'n braf ac yn fuddiol cael maes parcio ond codwyd nifer o faterion ymarferol. Mae problem dŵr yn cronni, felly byddai angen ffos a chludo cerrig i'r pwrpas. A fyddai preswylwyr yn defnyddio'r maes parcio neu'n parhau i barcio ar y ffordd? A fyddai modd cael llinellau melyn i atal rhagor o geir rhag parcio ar y ffordd? A chymryd y byddai ceir yn cael eu parcio yn y maes parcio, fyddai ceir yn mynd yn gynt nag erioed o weld y ffordd yn glir ac yn rhydd o geir?
  Penderfynwyd ar y camau gweithredu canlynol:

i. Cysylltu â Ken Skates i gael goleuadau o ddangos cyflymder ceir wrth fynd drwy'r pentref.
ii. Yn y tymor hir bydd y Cyngor yn cysylltu â Richard Arwyn i drefnu arolwg ac ar sail hwnnw cynhelir trafodaethau pellach.

Mae problemau newydd yn cynnwys:

- **Pont Ffriddgate** – Mae coed a chwyn rhwng y bont a'r ffordd. Mae coeden tŷ Pen y bont yn tyfu dros wal y bont. Mae hwn yn beryglus i ddefnyddwyr ffyrdd. Cysylltir ag Aled Jones.
- **Ysbwriel Cwm Ffrydlan** – nid yw'r ysbwriel yn cael ei glirio'n iawn ac mae angen bin mwy.
- **Layby Dorcorslwyn** – Mae ysbwriel yma o hyd.
- **Pont Cwmlline** – coeden wedi cwympo ac yn achosi rhwystr.
- **Halen -**Archebir halen i bob man

**19:723: Unrhyw fater arall**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40

**Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 31.11.24**

• Derbyniwyd llythyr i ddiolch am gymorth i dorri gwair Capel Sammah, Cwmlline gan Mr. Stephen Tudor

• Cafwyd cais gan yr Urdd dros Faldwyn. Penderfynwyd cyfrannu £200.00

• Contract Cysylltir â Simon Ling EDF i holi eto am y cytundeb ers 25/5/23.